# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWYLLGORA, 1A, NEAUDD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 31 Ionawr 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens, Merfyn Parry, Bill Tasker, Huw Williams a'r Aelodau Cyfetholedig C. Burgess, G. Greenland, D. Houghton, N. Lewis a Dr D. Marjoram. Roedd y Cynghorwyr J.R. Bartley, W.M. Mullen-James, D. Simmonds, E.W. Williams yn bresennol fel Sylwedyddion.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig (GW), y Pennaeth Addysg (KE), y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (AS), Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), y Swyddog Comisiynu a Gwerthuso (JJH), y Swyddog Comisiynu (CW), Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr (AHJ), Rheolwr Gwasanaethau'r Rhaglen Gymunedol a Chynradd (JE) a'r Cydlynydd Gofalwyr (AD), Cynrychiolwyr PBC, Cydlynydd Craffu (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley a/ac Ann Davies

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd B. Blakeley, bu'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd E.A. Jones yn cadeirio'r cyfarfod.

Dymunodd Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor wellhad buan i'r Cynghorwyr B. Blakeley a J.A. Davies ar ôl eu salwch diweddar.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganodd unrhyw Aelodau unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod ar frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

(i) Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau Arbennig a gynhaliwyd ddydd Iau 29 Tachwedd 2012.

Materion a gododd:-

5. Y Diweddaraf am Waith Ardal yn Sir Ddinbych, Dangosfwrdd Hyd Arhosiad – Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CD:MW) y gellid darparu gwybodaeth gefndir bellach, gan gynnwys ffigurau cyfredol a blaenorol, o ran hyd arhosiad, am y mater hwn.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn y Cofnodion a chymeradwyo eu bod yn gofnod cywir.*

(ii) Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau 20 Rhagfyr 2012.

Materion a gododd:-

5. Y Diweddaraf am Berfformiad y CYNLLUN MAWR - Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cadeirydd, eglurodd y Cydlynydd Craffu fod materion a godwyd yn ymwneud â'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim wedi cael sylw yn y Brîff Gwybodaeth. Cadarnhaodd hefyd fod y Brîff Gwybodaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Brosiect Allgymorth y Rhyl o ran problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol perthnasol i alcohol yng nghanol trefi ac ardaloedd eraill yn y Sir. Yn sgil yr wybodaeth a gafwyd, roedd y Cynghorydd J. Butterfield yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe gellid hwyluso cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Brosiect Allgymorth y Rhyl i drafod eu gwaith, eu cyflawniadau hyd yma ac unrhyw rwystrau rhag gwelliant pellach yn y maes hwn. O ganlyniad, enwebodd y Pwyllgor y Cynghorydd Butterfield i gyfarfod â chynrychiolwyr Allgymorth ar ran y Pwyllgor a rhoi adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, cytunwyd y byddai'r Cydlynydd Craffu, gyda'r swyddog perthnasol, yn mynd ar drywydd y pryderon a fynegwyd am y problemau sy'n digwydd ym maes parcio Morley Road.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles wrth y Pwyllgor y byddai Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru'n cael ei lansio'n ffurfiol ar 28 Chwefror 2013. Cytunodd yr Aelodau ei bod yn bwysig gwahodd Cadeirydd y Cyngor hefyd i ddigwyddiadau felly, yn ogystal â Chadeirydd y Pwyllgor perthnasol ac Arweinydd y Cyngor.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn y Cofnodion a chymeradwyo eu bod yn gofnod cywir.*

## 5 GWASANAETH RHANBARTHOL EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION A CHYNNWYS YSGOLION

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Addysg, a oedd yn disgrifio'r cynnydd o ran sefydlu a chynnal y Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynnwys Ysgolion (RSEIS), a'r buddion a sylweddolwyd ers ei sefydlu, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg yr adroddiad ac eglurodd fod y Cabinet, ym mis Chwefror 2012, wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn i sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Gwella Ysgolion (RSEIS) i fod yn atebol i chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, a chynnal eu cyfrifoldebau statudol, o ran y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cymorth i ddatblygiad proffesiynol parhaus cwricwlwm a rheoli ysgolion, ac, yn ogystal, darparu gwasanaethau y gellid eu comisiynu gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Roedd copi o'r adroddiad i'r Cabinet wedi'i gynnwys yn Atodiad 1, gyda chopi o'r achos busnes llawn yn Atodiad 2.

Amlinellwyd i'r Aelodau gyfanswm costau cyfredol cyflenwi'r swyddogaethau gwella ysgolion o fewn y cwmpas cynghorol a statudol presennol ledled chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Nodwyd ei bod yn bosibl arbed £882k o swm holl-ranbarthol y gellid ei ail-fuddsoddi mewn Addysg, neu ei ryddhau fel arbediad ariannol, gan ddibynnu ar anghenion pob Awdurdod Lleol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai Gwynedd a benodwyd yn Awdurdod Cynnal ar gyfer y Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynnwys Ysgolion. Bu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig (HLDS) yn crynhoi'r trefniadau cyfreithiol a gyflwynwyd i sicrhau llinell glir o atebolrwydd i reoli'r Gwasanaeth a rhoes fanylion yn ymwneud â sefydlu Cydbwyllgor, gan amlinellu ei gylch gwaith a'i gyfansoddiad. Amlinellodd ddiben y Cytundeb Rhwng Ysgolion a oedd yn ffurfioli'r trefniadau rhwng yr Awdurdodau priodol ac yn nodi paramedrau a ffiniau clir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E.W. Williams at y farn a fynegwyd gan y Gweinidog ynglŷn ag amserlenni a phwysleisiodd fod safonau'n bwysicach na strwythurau a bod Sir Ddinbych wedi gosod esiampl dda fel Awdurdod Addysg.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd na ddylai sefydlu'r Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Gwella Ysgolion rwystro'r safonau uchel a osodwyd ac a gyflawnwyd gan Sir Ddinbych, cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at yr heriau a'r buddion sy'n codi o'i gyflwyno a sicrhaodd na fyddai'r safonau a'r lefelau a gyflawnwyd yn Sir Ddinbych yn cael eu rhwystro. Cadarnhaodd y byddai'r broses yn cael ei monitro'n ofalus ac y byddai'r cysylltiadau a'r berthynas waith agos a ddatblygwyd â'r Penaethiaid yn parhau. Mynegwyd pryderon hefyd am y cymariaethau posibl y gellid eu gwneud rhwng yr Awdurdodau priodol, yn enwedig o ran safonau a darpariaeth gyllidebol, a pha mor bwysig yw derbyn y byddai rhai Awdurdodau am gynnal eu disgwyliadau a'u safonau uchel cyfredol. Eglurodd y Cynghorydd E.W.Williams y byddai sefydlu'r Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynnwys Ysgolion yn cynyddu'r gallu i ymdrin â chylch ehangach o'r Rhaglen Gwella Ysgolion ac yn sicrhau gwelliant helaeth yn y ddarpariaeth addysg.

Cytunodd y Pennaeth Addysg y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei rhoi am gyfraniad Aelodau at adolygiad sy'n cael ei wneud gan Robert Hill. Eglurodd y byddai rolau a swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo o awdurdodau lleol gyda staff yn cael eu hadleoli, ynghyd â'r cyllidebau priodol, ar ôl sefydlu'r Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynnwys Ysgolion. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig y byddai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n craffu ar waith partneriaeth ac eglurodd fod Mesur Llywodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno cysyniad craffu ar y cyd y gellid ei fabwysiadu i fonitro'r

Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynnwys Ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth yr Aelodau y byddai Estyn yn monitro'r broses a chyfeiriwyd at yr arolygiad gwaith consortiwm ac at gynnwys yr Awdurdod Lleol mewn Arolygiadau. Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu at y posibilrwydd bod cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith paratoi sy'n ofynnol i sefydlu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer prosiectau fel y gwasanaeth addysg rhanbarthol.

Ymatebodd y Pennaeth Addysg i bryderon a fynegwyd a sicrhaodd y byddai'r safonau a osodwyd gan Sir Ddinbych yn cael eu cynnal a'u datblygu. Cadarnhaodd fod grŵp defnyddwyr wedi'i sefydlu a oedd yn rhoi'r cyfle i Benaethiaid a Llywodraethwyr Ysgol gyfarfod ag uwch swyddogion o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynnwys Ysgolion. Amlygodd y Pennaeth Addysg hefyd bwysigrwydd yr Adroddiad Safonau Cyrhaeddiad, a gyflwynir yn flynyddol i'r pwyllgor craffu, a oedd yn ceisio gwella canlyniadau i blant. Mewn ymateb i bryderon am yr amserlenni dan sylw a'r angen i sicrhau bod aelodau o staff yn cael digon o amser i addasu i unrhyw newidiadau, roedd y Cynghorydd E.W. Williams yn teimlo y gellid cyfleu pryderon felly i'r Gweinidog priodol. Ar ôl trafod ymhellach:-

***PENDERFYNWYD –***

*(a) derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma o ran sefydlu'r gwasanaeth newydd, a*
(b) *cyflwyno adroddiad pellach ym mis Ionawr 2014 ar y cynnydd a gyflawnwyd yn sefydlu'r Gwasanaeth, am broblemau neu rwystrau y daethpwyd ar eu traws ac am y cyflawniadau hyd yma.*

## 6 STRATEGAETH GWYBODAETH AC YMGYNGHORI GOFALWYR GOGLEDD CYMRU

Cylchredwyd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r broses o weithredu Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 newydd, sef y Mesur Gofalwyr, fel y nodir yn Strategaeth Gwybodaeth Ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru 2012 – 2015, ac yn cynnwys nodyn gwybodaeth am y llinell gymorth 24 awr i Ofalwyr yn Sir Ddinbych.

Yn unol â gofynion y Mesur Gofalwyr, roedd drafft terfynol y Strategaeth Ranbarthol, Atodiad 1, wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ffordd y byddai'r Strategaeth Ranbarthol yn mynd i'r afael â gofynion y Mesur Gofalwyr, ac eglurwyd y byddai gofyn i bob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru graffu ar y Strategaeth a'i chymeradwyo.

Dynodwyd Byrddau Iechyd Lleol yn 'awdurdodau arwain' yn y gwaith o weithredu Rheoliadau'r Mesur Gofalwyr. Sefydlwyd Grŵp Strategol Arweinwyr Gofalwyr Gogledd Cymru (NWCSLG) i ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol. Byddai'r Grŵp hwn yn parhau i gyfarfod a gweithredu fel y gweithgor partneriaeth i fynd ymlaen â'r camau a amlinellir yn y Strategaeth Ranbarthol. Roedd BIPBC wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru), a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector, i graffu ar waith Grŵp Strategol Arweinwyr Gofalwyr Gogledd Cymru ac i roi cyngor a sicrhad i'r Bwrdd Iechyd.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod y Strategaeth Ranbarthol yn rhagweithiol gyda ffocws da ar ganlyniadau, a'i fod yn seiliedig ar feddylfryd clir am yr hyn y gallai fod angen ei wneud yn wahanol er mwyn eu cyflawni. Roedd y Strategaeth wedi arddangos gwaith partneriaeth cryf rhwng y Bwrdd Iechyd, chwe Awdurdod Lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector. Roedd meysydd i'w gwella wedi'u hamlygu ac roeddent yn cynnwys yr angen am bennod ar wahân am ofalwyr ifanc, gan gryfhau rhai o'r Camau Allweddol i Flwyddyn 3, egluro sut byddai'r Strategaeth yn berthnasol i gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a grwpiau eraill â nodweddion gwarchodedig a chyfnerthu'r elfen iechyd meddwl o'r Strategaeth.

Roedd effaith y Mesur newydd yn debygol o arwain at nodi nifer cynyddol o Ofalwyr a'u cyfeirio ymlaen am asesiad statudol gan yr Awdurdod Lleol. Byddai posibilrwydd cynnydd mewn atgyfeiriadau'n cael ei fonitro i ystyried materion lle a goblygiadau i wasanaethau'r dyfodol.

Bu'r Cydlynydd Gofalwyr yn rhoi crynodeb manwl o'r pwyntiau amlwg a'r Camau Allweddol sydd yn y Strategaeth, Atodiad 1 i'r adroddiad. Eglurodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd J.A. Davies wedi'i ailbenodi'n ddiweddar yn Hyrwyddwr Gofalwyr i Sir Ddinbych.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i faterion a chwestiynau a godwyd gan yr Aelodau:-

- amlinellodd y Cydlynydd Gofalwyr y cysylltiadau cyfathrebu presennol a chyfeiriodd yn arbennig at gylch gwaith Grŵp Strategol Arweinwyr Gofalwyr Gogledd Cymru. Disgrifiodd y mesurau sydd ar waith i helpu i fynd i'r afael â'r problemau a gaiff gofalwyr ifanc a chadarnhaodd y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud drwy'r Grŵp Strategol. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y gwaith sy'n cael ei wneud yn Ysgolion Sir Ddinbych a'i Gwasanaethau Plant i nodi gofalwyr ifanc a sicrhau mwy o ymwybyddiaeth, a chadarnhaodd y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud drwy gomisiynu gwasanaethau'n rhanbarthol.

- o ran darparu gofal seibiant i ddefnyddwyr gwasanaeth i gynorthwyo gofalwyr, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes y gellid archwilio'r dull o nodi gofalwyr unigol a chytunwyd y gellid cynnwys eitem am y mater hwn ar yr agenda i'w hystyried gan y Fforwm Gofalwyr. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles at y mesur a oedd yn annog nodi gofalwyr ond pwysleisiodd fod angen adnoddau i fodloni'r galw. Cyfeiriodd y Cydlynydd Gofalwyr at gylch gwaith BIPBC yn cyfeirio defnyddwyr at y broses Asesu Anghenion Gofalwyr. Cadarnhaodd eu bod yn gwybod am y problemau cyfredol a bod y mater hwn wedi'i amlygu i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

- eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes fod yr asesiad cyffredinol o bobl y mae angen gofal arnynt, ac o'u gofalwyr priodol, yn cael ei wneud gan Dimau Gwaith Cymdeithasol, a chadarnhaodd fod gofyn cynnal asesiadau'n flynyddol.

- cydnabu swyddogion y Gwasanaeth Iechyd feichiau gwaith gormodol y staff nyrsio mewn Ysbytai a chadarnhaodd y byddai Hyrwyddwyr Gofalwyr Gwasanaeth Iechyd ar wardiau ysbytai'n cynnwys trawstoriad o staff o'r tu mewn i'r Gwasanaeth.

- darparodd y Swyddog Comisiynu Gofalwyr fanylion yn ymwneud â nifer y gofalwyr, fel y nodwyd yng nghyfrifiad 2011. Rhoes fanylion y rhaglen hyfforddi i staff gofal cymdeithasol a chytunwyd y gellid cylchredeg copi o'r ddogfennaeth yn amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir i'r Aelodau.

- dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes wrth y Pwyllgor fod cyfarpar a gwaith addasu yng nghartrefi defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu darparu drwy gynllun y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG).

- cadarnhawyd y byddai'r holl staff sy'n mynd i sesiynau hyfforddi yn cael ffurflen safonol gynhwysfawr ar gyfer gwerthuso perfformiad, a fyddai'n cael ei harchwilio a'i hasesu.

- rhoes Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes fanylion cyfansoddiad y Panel Gofal Cymunedol a'r broses a fabwysiadwyd ynglŷn â'r asesiad a gynhelir gan y Gweithiwr Cymdeithasol priodol.

- Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan yr aelodau am yr angen i sicrhau bod cleifion a ryddheir o'r ysbyty yn cael cynllun gofal digon da, eglurodd y Cydlynydd Gofalwyr y byddai cynllunio rhyddhau pobl o'r ysbyty yn elfen bwysig o sefydlu llwybr atgyfeirio ffurfiol drwy'r siwrnai iechyd a bod hwn yn rhan o'r strategaeth sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd i wella'r broses. Mewn ymateb i awgrym na ddylid rhyddhau cleifion nes eu bod yn destun cynllun gofal, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y dylai cleifion gael cynllun rhyddhau, a fyddai'n cynnwys cynllun gofal, a byddai gwella'r strategaeth fel y cynigir yn sicrhau y byddai'r broses yn gadarnach. Cytunodd y Pwyllgor nodi'r pryderon nad oes cynlluniau gofal digon da bob amser yn eu lle, a bod Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes yn cysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd i archwilio ffyrdd posibl o fynd i'r afael â'r materion a'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau.

Tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes sylw'r Aelodau i'r nodyn gwybodaeth a oedd yn ymateb i ymholiad am linell gymorth 24 awr i Ofalwyr yn Sir Ddinbych. Mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn comisiynu gwasanaethau cymorth i ofalwyr gyda chwe sefydliad trydydd sector lleol sy'n darparu gwybodaeth a chymorth un ac un yn bennaf i Ofalwyr, ac yn eu plith NEWCIS, y Gymdeithas Alzheimer a Hafal. Y brif linell ffôn 24 awr i Gymru oedd y Llinell Wrando a Chyngor Cymunedol (C.A.L.L.) ynghyd â Llinell Gymorth Dementia Cymru. Roedd manylion y gwasanaethau wedi'u cynnwys yn y Pecyn Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Ddinbych a chadarnhawyd y byddai datblygu'r Strategaeth Ranbarthol yn helpu i hyrwyddo'r gwasanaethau cymorth i'r Gofalwyr a nodir gan staff iechyd.

Eglurwyd y byddai'n costio tua £100K y flwyddyn i gynnal llinell gymorth ffôn 24 awr. Byddai gofyn gwneud gwaith manylach i asesu'r nifer posibl a fyddai'n manteisio ar wasanaeth sirol lleol, ond byddai'n anodd ei gyfiawnhau o ystyried lefel y buddsoddiad, a bod gwasanaethau eisoes ar gael ar lefel genedlaethol. Byddai

adolygiad o'r Pecyn Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Ddinbych yn dechrau ym mis Ionawr 2013 a gellid ystyried hyrwyddo'r llinellau ffôn presennol yn rhan o'r adolygiad. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes y gellid rhoi gwybod i'r aelodau am y costau sy'n ymwneud â darparu llinellau gofal.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, roedd yr Aelodau'n cefnogi'r farn y dylid newid argymhelliad 3.2 yn yr adroddiad i ddweud "mae'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd o ran llinellau cymorth 24 awr i ofalwyr."

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor-*

*(a) yn cefnogi Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru 2012/2015 a'r dull partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r trydydd sector o ran ei gweithredu, a*
*(b) yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd o ran y llinell gymorth 24 awr i Ofalwyr, a'r gwasanaethau sydd ar waith i fodloni'r angen hwn i ofalwyr Sir Ddinbych.*

**7 DARPARIAETH GOFAL ANNIBYNNOL – COMISIYNU A MONITRO**

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes, a oedd yn disgrifio graddau'r ddarpariaeth gofal allanol a gomisiynir yng Nghyngor Sir Ddinbych a'r ffordd y caiff ansawdd y gofal hwnnw ei fonitro, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes yr adroddiad a oedd yn asesu ansawdd a gwerth y ddarpariaeth gofal cymdeithasol annibynnol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn Sir Ddinbych. Roedd yn disgrifio'r cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth allanol a mewnol ac roedd Atodiad 1 yn disgrifio'r ganran o ddarpariaeth gofal allanol a mewnol.

Eglurodd fod y dull o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir wedi newid a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu proses ranbarthol a chytuno arni. Roedd y broses a ddilynir i fonitro ansawdd yn Sir Ddinbych wedi'i chrynhoi yn yr adroddiad a defnyddiwyd pob cyswllt â darparwyr i lywio'r gwaith o fonitro contractau. Amlinellwyd proses ymweliadau monitro contract a chadarnhawyd bod proses i fonitro Gofal Preswyl yn cael ei datblygu bellach. Eglurwyd bod ymweliadau monitro contract rhagweithiol wedi'u cynllunio i ddechrau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan yr Aelodau, eglurwyd bod system electronig newydd o gofnodi materion ansawdd a Chontract wedi'i gweithredu i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf un ar gael yn hawdd i swyddogion wrth iddyn nhw gael ymholiadau.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes y byddai barn a dewis y Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu hystyried. Pe na fyddai ansawdd safonau darpariaeth, neu ofynion rheoleiddio AGGCC, yn cael eu bodloni, byddai gwaith partneriaeth i wella ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru am waith partneriaeth gyda darparwyr.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes y byddai dichonolrwydd cartrefi gofal dan fygythiad, wrth i nifer y lleoliadau cartref gofal leihau, gyda mwy o bobl yn dewis aros yn eu cartrefi. Roedd cau cartrefi wedi effeithio ar faich gwaith y tîm a oedd yn monitro'r broses ac yn sicrhau trosglwyddiadau diogel i gartrefi gofal eraill yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Byddai'r Tîm Adolygu'n cael ei ddatblygu yn 2013/14 a fyddai'n golygu bod Swyddogion Gofal Cymunedol a Swyddogion Contract yn cydweithio i adolygu anghenion gofal a monitro darpariaeth o ansawdd i bob categori gofal. Byddai gwaith rhanbarthol ar fanylebau gwasanaeth a chontractau yn dal i effeithio ar y ffordd y byddai contractau'n cael eu monitro. Roedd manylion y broses ymgynghori a fabwysiadwyd a mesurau a gyflwynwyd i leihau unrhyw risgiau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd am y broses hunanasesu a phwysigrwydd sicrhau gweithdrefnau monitro cadarn, amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr (SM:BC) y prosesau monitro a fabwysiadwyd gan Sir Ddinbych, a oedd yn ceisio casglu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael i asesu lefel a safon y gwasanaethau a ddarperir, ac archwilio adroddiadau AGGCC a'r camau a gymerir drwy'r broses adolygu contract i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb a nodir. Cadarnhawyd y byddai gwaharddiad dros dro'n cael ei osod ar bob achos newydd pe byddai darparwyr yn methu â bodloni'r safonau gofynnol, ac y byddai defnyddwyr gwasanaeth presennol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Mewn ymateb i gwestiwn, rhoes y Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr fanylion yr hyfforddiant sydd ar gael i staff yr awdurdod lleol a'r sector annibynnol. Ymatebodd hefyd i bryderon a godwyd ac eglurodd nad oedd bob amser yn ymarferol nac yn bosibl i'r un gofalwr roi sylw i ddefnyddiwr gwasanaeth unigol yn rheolaidd, nac ymweld yn rheolaidd â'r defnyddiwr. Fodd bynnag, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr y byddai'n ddefnyddiol i'r holl gynghorwyr gael gwybod sut i roi gwybod i swyddogion am unrhyw bryderon sydd ganddynt am ansawdd a lefel y gofal a ddarparir i breswylwyr yn eu wardiau gan unigolion neu ddarparwyr gofal.

Ar ôl trafod ymhellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, a*
*(b) yn cefnogi'r Gwasanaeth yn ei waith partneriaeth gyda'r Darparwyr Gofal Sector Annibynnol.*

## 8 TEULUOEDD YN GYNTAF

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Comisiynu a Gwerthuso, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol mewn perthynas ag elfennau wedi'u comisiynu ac elfennau heb eu comisiynu o Raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych ar gyfer cyfnod ariannol 2012-2014, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (HBPP) yr adroddiad yn rhoi gwybod am werthuso a monitro cynnydd yr ymgeiswyr llwyddiannus hyd yma o ran gweithredu a chyflenwi eu gwasanaethau, Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf a Chanlyniad 4 yn Sir Ddinbych – y Cynllun MAWR.

Crynhodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad y Trosolwg Strategol gan gynnwys y cysylltiad â Sir Ddinbych - y Cynllun MAWR, a amlinellwyd yn yr adroddiad, a chyfeiriodd at y tablau a ddarparwyd a oedd yn disgrifio'r Gwasanaethau Heb eu Comisiynu a'r Gwasanaethau Wedi'u Comisiynu a'r cymariaethau cyllid priodol ar gyfer 2012/13 a 2013/14.

Sir Ddinbych fu'r Awdurdod cyntaf yng Ngogledd Cymru i gomisiynu 7 o'r 9 elfen o'r Rhaglen. Amlinellwyd yn yr adroddiad oediadau o ran yr elfennau Cymorth i Deuluoedd ac Anabledd o'r Rhaglen. Roedd Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn ei chyfanrwydd, bron yn ei lle a byddai'r Rhaglen cyn hir yn arddangos ei heffaith ar deuluoedd. Sefydlwyd man canolog o fynediad/atgyfeirio yn Sir Ddinbych drwy Gydlynydd Cymorth Integredig i Deuluoedd Teuluoedd yn Gyntaf. Yn ogystal, byddai'r Panel Teuluoedd yn Gyntaf yn ystyried, bob pythefnos, yr atgyfeiriadau a gafwyd gan y Cydlynydd Cymorth Integredig i Deuluoedd ac yn nodi'r ymateb gwasanaeth mwyaf addas. O fis Ebrill 2013 ymlaen, byddai gofyn defnyddio Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) yn brif offeryn atgyfeirio, asesu a chynllunio ar gyfer gweithio gyda theuluoedd a gefnogir drwy Raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Gwnaethpwyd gwaith gyda'r paneli aml asiantaeth yn yr ysgolion a chytunwyd y byddai atgyfeiriadau drwy'r paneli hyn yn cael ymateb ar unwaith.

Roedd yr adroddiad yn disgrifio buddion a chanlyniadau gweithredu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a mabwysiadu arferion da eraill. Roedd Rhaglen Hyfforddi Teuluoedd yn Gyntaf, Atodiad 1, wedi'i hariannu drwy elfen Datblygu, Hyfforddi a Chefnogi'r Gweithlu ynghyd ag elfen Hyfforddiant Anabledd. Nodwyd pynciau hyfforddiant fel prif flaenoriaeth gan ddarparwyr gwasanaeth ar gyfer cyfnodau cynnar gweithredu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Eglurodd y Swyddog Comisiynu a Gwerthuso fod Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn allweddol yn cyfrannu at y Cynllun Mawr: "Canlyniad 4 - bod Teuluoedd sy'n Agored i Niwed yn Sir Ddinbych yn cael eu cefnogi i fyw bywyd yn rhydd o dlodi, lle gallent fod yn annibynnol a ffynnu", a chadarnhawyd bod penderfyniad y Bwrdd Prosiect i ail-dendro ar gyfer yr Elfennau Cymorth i Deuluoedd ac Anabledd, ar ôl ystyried nifer o ddewisiadau eraill a gyflwynwyd drwy Adroddiad Eithriadau, wedi creu effaith ar gyflenwi'r rhaglen gyfan. Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad cynhwysfawr a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau integredig wedi'u comisiynu.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, amlinellodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad y rhesymau dros fabwysiadu dull comisiynu ffurfiol ac eglurodd y byddai disgwyliadau clir ac atebolrwydd am weithredu pe na fyddai'r canlyniadau'n cael eu sylweddoli na'u cyflawni. Cadarnhaodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Gwasanaethau Archwilio Mewnol, yn arfer rheolaethau cyllido ac yn monitro gwariant.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd hyd yma o ran cyflenwi Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a*
*(b) yn derbyn adroddiad diweddaru am gyflenwi Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2013.*

**9 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Craffu, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei Flaenraglen Waith ddrafft ac yn rhoi gwybod y diweddaraf am faterion perthnasol, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau i'r cyfarfod. Ynghlwm fel atodiadau wrth yr adroddiad oedd blaenraglen waith y Cabinet a thabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd o ran eu gweithredu.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y disgrifir yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

- cynnwys eitem am y Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd Ysgolion a Gwella Ysgolion ar gyfer mis Ionawr 2014 a chynnwys adroddiad diweddaru am Raglen Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer mis Hydref 2013.

- cytunodd yr Aelodau i aildrefnu'r pedair eitem fusnes y trefnwyd eu cyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin 2013 i'w hystyried yn hytrach yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2013.

- Cytunodd y Pwyllgor i gynnal y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin ar ddydd Llun 10 Mehefin 2013 am 2.00pm. Y cyfarfod hwn fyddai'r cyfarfod rheolaidd bob chwe mis gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd. Cytunwyd i ystyried yn y cyfarfod hwnnw'r ddwy eitem a ohiriwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd 2012 gyda'r cynrychiolwyr Iechyd - sef y Diweddaraf am y Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) (y cynnydd a gyflawnwyd yn mynd i'r afael ag oediadau asesu CAMHS a chynnydd pellach mewn perthynas â gwasanaethau CAMHS).

Gofynnwyd i'r Cydlynydd Craffu holi a ellid darparu a thrafod yn y cyfarfod hwnnw adroddiad am Aelodau Prosthetig, sef darparu a chynnal aelodau artiffisial i oedolion a phlant (gan gynnwys gwybodaeth am gael at y gwasanaeth, unrhyw oediadau a geir neu gyfyngiadau a gymhwysir a gweithdrefnau cwyno).

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55 p.m.